Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Dyffryn Cledlyn**

**Ysgol Dyffryn Cledlyn**
**Dre-fach**
**Llanybydder**
**SA40 9SX**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

24/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cylch Meithrin Dyffryn Cledlyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cofrestredig | Carol Davies |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Mai 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus ac yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yng Nghylch Meithrin Dyffryn Cledlyn. Mae ganddynt ymdeimlad braf o berthyn ac maent yn datblygu cydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol. Mae'r plant yn cael dewis da ac maent yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau ei wneud. Mae rhyngweithiadau'r plant yn gynnes, ac maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu, gan ffurfio perthynas glòs â'r staff gofal.

Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i gadw plant yn ddiogel. Maent yn gymwys ac yn garedig tuag at y plant, gan ddarparu rhyngweithiadau cadarnhaol i sicrhau eu bod nhw'n teimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hapus. Mae staff gofal yn diwallu anghenion y plant yn llawn.

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a saff. Mae staff gofal wedi nodi a, chyn belled ag sy'n bosibl, wedi dileu risgiau diangen i blant. Mae digon o le a chyfleusterau i blant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth plant ac mae wedi'i gynnal a'i gadw a'i addurno'n dda.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn rheoli gwasanaeth trefnus. Maent yn sicrhau bod staff gofal yn mynychu hyfforddiant yn weithredol ac yn cael cyfleoedd datblygu. Maent yn rheoli prosesau recriwtio yn dda. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn trefnu staff gofal ac yn dilyn eu polisïau a gweithdrefnau yn dda er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae partneriaethau yn dda iawn. Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, yn datgan brwdfrydedd, ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Cyrhaeddodd plant o ddosbarth arall yn hyderus ac yn awyddus i ddechrau eu prynhawn. Mae'r plant yn llawn cymhelliant wrth wneud penderfyniadau ac yn dewis sut maent yn treulio'u hamser. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd chwarae a'r gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi, maent yn awyddus ac yn hyderus wrth rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a siarad â staff gofal. Maent yn gwybod bod eu teimladau yn cael eu hystyried ac maent yn mwynhau sgwrsio gyda staff gofal am eu bywyd cartref a'u cynnwys yn eu chwarae.

Mae gan y plant ymdeimlad o ddiogelwch, maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol hyd yn oed gyda'r arferion glanhau a hylendid ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Er enghraifft, maent yn gwybod bod cân benodol yn nodi ei bod hi'n amser iddynt dacluso. Mae gan blant berthynas glòs â'r staff gofal ac maent yn mwynhau eistedd yn agos iddynt yn ogystal ag ar eu glin yn ystod cyfnod gweithgareddau. Maent yn teimlo yn gyfforddus yn gofyn i staff gofal am gysur neu sicrwydd pan fydd angen. Mae'r plant wedi dechrau gwneud ffrindiau, maent yn sgwrsio gyda'i gilydd yn ystod amser cinio ac amser chwarae; gan rannu gwên a llawer o chwerthin wrth wneud hynny.

Mae'r plant yn gwrando yn dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, roeddynt yn mwynhau paentio llun o Elmer yr Eliffant wrth baratoi am ddiwrnod Elmer arbennig. Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, yn hyderus i gydweithredu ac yn cymryd eu tro a rhannu. Er enghraifft, gwelsom blant yn cymryd troeon wrth chwarae gyda'r tŷ doliau a rhoi'r dodrefn dan do.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn cael hwyl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r plant yn canolbwyntio ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn maent yn ei wneud. Er enghraifft, roedd rhai plant yn canolbwyntio'n dda wrth wrando ar y stori tra'r oedd eraill yn dewis canu caneuon gyda'i gilydd, gan ymuno â'r geiriau a'r gweithredoedd.

Mae'r plant yn dysgu i wneud pethau drostynt eu hunain wrth i staff eu cefnogi. Maent yn cael eu hannog i benderfynu drostynt eu hunain pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt a sut i gwblhau tasg. Er enghraifft, maent yn penderfynu drostynt eu hunain lle yr hoffent chwarae ac maent yn dewis o'r adnoddau sydd ar gael, gan eu bod nhw i gyd yn cael eu storio o fewn eu cyrraedd. Mae'r plant yn gallu cyrchu a dychwelyd eu heiddo yn annibynnol i'w blwch storio eu hunain wedi'i labelu yn ystod amser byrbryd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae staff gofal yn deall eu rolau ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn gallu dweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai pryder ganddynt ynglŷn â phlentyn. Mae nifer digonol o'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig hefyd. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn briodol ac yn rhannu'r rhain yn electronig gyda rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod plant a staff gofal yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym a diogel mewn argyfwng.

Mae staff gofal yn hyrwyddo ffyrdd iach o fwyta ac yfed. Maent yn annog rhieni i ddanfon byrbrydau a chinio iach ar gyfer eu plant ac yn sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar eu poteli diod drwy gydol y dydd. Maent yn annog plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dilyn y gweithdrefnau hylendid priodol wrth drafod bwyd. Mae staff gofal yn llunio cyfleoedd yn rheolaidd i blant dreulio amser yn yr awyr agored; dyfarnwyd grant i'r lleoliad yn ddiweddar i ddatblygu'r ardal yn yr awyr agored.

Mae gan staff gofal gydberthnasau cadarnhaol gyda phlant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn darparu cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar blant. Mae staff gofal yn deall y polisi ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad pan fo angen. Maent yn delio â dadleuon neu ymddygiad anaddas yn gadarnhaol. Er enghraifft, gwelsom staff gofal yn canmol plant yn gyson pan roeddynt yn ymddwyn yn dda a gwnaethant ailgyfeirio plant at weithgaredd arall os oedd unrhyw anghytundebau bach. Roedd staff gofal yn arddangos cwrteisi da drwy gydol y sesiwn ac yn rhoi llawer o ganmoliaeth pan oedd plant yn gwneud hyn hefyd.

Mae staff gofal profiadol a chymwys yn gofalu am blant yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoffterau ac anhoffterau. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol plant cyn iddynt ddechrau mynychu'r lleoliad, sydd yn eu helpu nhw i gynllunio yn effeithiol. Mae'r unigolyn â gofal yn sicrhau bod cynlluniau gweithgareddau manwl ar waith, sydd yn cynnwys amrywiaeth dda o dasgau i ddatblygu sgiliau plant. Mae tudalen cyfryngau cymdeithasol gaeedig wedi'i chreu i rannu lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn ogystal â gwybodaeth bwysig arall. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo datblygiad y plant yn yr iaith Gymraeg drwy amryw o ganeuon gydag ystumiau ac amser stori. Mae'r staff gofal yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae pobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod staff yn dilyn gweithdrefnau i gadw plant yn ddiogel. Mae ganddynt asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sydd yn amlinellu unrhyw beryglon posib i ddiogelwch plant a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli. Hefyd, mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi llunio asesiad risg a pholisi pwrpasol yn amlinellu'r gweithdrefnau ychwanegol sydd ar waith i atal lledaeniad posib COVID-19. Roedd yr ardaloedd dan do yn saff a diogel.

Mae pob ardal sydd yn cael ei defnyddio gan blant yn agored ac yn groesawgar. Mae digon o le iddynt chwilota. Roedd staff yn dathlu gwaith plant gan arddangos eu crefftau a lluniau o amgylch y lleoliad, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae pobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi trefnu'r ystafell chwarae i greu ardaloedd dysgu sydd yn darparu ystod o weithgareddau diddorol i'r plant. Mae teganau ac adnoddau yn cael eu storio ar lefel isel fel bod y plant yn gallu cael gafael arnynt yn rhwydd. Mae'r dodrefn, fel cadeiriau a byrddau isel, yn addas i oedran y plant. Mae'r ardaloedd awyr agored yn darparu rhai cyfleoedd i blant ddatblygu eu dychymyg, gan gynnwys cegin fwd, sleid, tŷ bach twt, a theganau i’w gyrru.

Mae'r lleoliad yn addas ar gyfer profiadau chwarae a dysgu plant, ac mae’r staff gofal yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd hyn, gan gynnig profiadau amrywiol. Mae'r amgylchedd yn olau, yn llachar ac yn awyrog. Mae'r ffenestri a'r drws cefn ar agor i sicrhau awyru digonol. Mae'r staff gofal yn parchu preifatrwydd ac urddas plant, ac mae cyfleusterau toiledau ar gael tu allan i'r amgylchedd chwarae penodedig, lle gall plant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, wedi'u goruchwylio gan staff gofal. Mae gan ardaloedd chwarae a dysgu ddigon o adnoddau i sicrhau bod staff gofal yn gallu cynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant. Er enghraifft, mae gan blant fynediad at ardal byd bach, blociau, tŷ doliau, ardal darllen, iPad, camerâu, cerbydau pren, offerynnau cerddorol, blociau pren, posau, garej a cherbydau i enwi ychydig.

Mae yna amrywiaeth eang o adnoddau, teganau a llyfrau, sy'n addas, glân ac mewn cyflwr da, gan alluogi staff i baratoi gweithgareddau yn hyderus. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19 mae'r lleoliad ar hyn o bryd yn storio'r rhan fwyaf o'r rhain i ffwrdd o lefel y plant er mwyn monitro amserlen amrywio a glanhau'r teganau. Mae'r staff gofal ar hyn o bryd yn sicrhau eu bod yn rhoi rhai o'r teganau ac adnoddau ar uchder y plant ar ddechrau pob sesiwn a gall y plant ddefnyddio'r eitemau hyn. Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad

yn darparu digon o adnoddau amlddiwylliannol a Chymreig i alluogi plant i ddysgu mwy am y byd maent yn byw ynddo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad hwn wedi gwneud addasiadau i'w gwasanaeth i sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau COVID-19 a chanllawiau mesurau diogelu. Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu eu gweledigaeth am y lleoliad gyda staff gofal yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae polisïau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw’n cael eu cadw’n gyfredol. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol; gan olygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â ph'un a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn.

Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod nhw’n datblygu ac yn gwella'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig yn barhaus. Maent yn ceisio adborth oddi wrth rieni ar lafar yn rheolaidd yn ogystal ag anfon holiaduron at rieni, staff gofal, a gweithwyr proffesiynol eraill sydd yn ymweld yn rheolaidd. Mae safbwyntiau plant yn cael eu hystyried hefyd drwy siarad â nhw ac yn ystod arsylwadau dyddiol, er enghraifft wrth wylio pa adnoddau y mae’r plant yn eu hoffi a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio. Mae'r adroddiad ansawdd gofal yn cynnwys pa welliannau maent wedi’u gwneud yn barod, a'r rhai sydd wedi’u cynllunio mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd.

Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod staff gofal yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd er mwyn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Roedd gan bob aelod o staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig yn dangos bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio staff gofal rheolaidd wedi’u cynnal. Fodd bynnag, nid yw staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r ddyletswydd radicaleiddio Prevent sy'n ymdrin ag adnabod a mynd i'r afael â radicaleiddio.

Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys gwybodaeth i sicrhau'r gofal mwyaf priodol ar eu cyfer, gan gynnwys contractau a chaniatadau eu rhieni. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a oedd wedi’i chasglu gan rieni yn manylu anghenion, hoffterau ac anhoffterau penodol plant. Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn effeithiol. Roedd yr adborth gan rieni yn ganmoliaethus iawn o'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn. Dywedasant wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol gyda staff gofal, sy'n rhannu

gwybodaeth yn rheolaidd. Dywedodd rhieni hefyd fod staff gofal yn hawdd mynd atynt os oeddent am drafod unrhyw faterion gyda nhw.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant ar 'ddyletswydd radicaleiddio Prevent'

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 29 | Dim goruchwyliaethau staff | Cyflawnwyd |
| 28 (2) (a) [i] Atodlen 1.09 | Ffeiliau staff heb eu cwblhau | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 04/02/2022